

EISTEDDFOD YR URDD CAERDYDD A'R FRO 2019

Rhif 129 - Grŵp Llefaru Bl 9 ac iau (Adran) (6-16 mewn nifer)
Dwy Ochr y Stryd – Grahame Davies
a chriw prosiect Shelter, Ysgol Dyffryn Teifi



Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod

DWY OCHR Y STRYD

Cario ein bagiau siopa yr oeddem
drwy brysurdeb Caerdydd
heibio'r briodas yng Nghapel y Tabernacl
a'r teuluoedd yn dathlu
bond dau berson bodlon eu byd,
heibio drychau ffenestri'r cymdeithasau adeiladu
a'u dyledion deniadol, drud.

Ond gyferbyn,
ym mynedfa'r Oxford Arcade,
nid cyfnewid llwon na modrwyon,
ond cyfnewid y *Big Issue*
am ddwy bunt a hanner can ceiniog o hunan-barch,
weithiau am y pris cywir,
weithiau am bunt neu ddwy yn fwy,
o gydymdeimlad.
Stopiwn, prynwn,
ac, o glywed ei 'Diolch yn fawr i chi,'
sgwrswiwn, a holwn rywfaint o'i hanes.

Ddeg munud wedyn,
eisteddem o'i amgylch yn gwrando mewn cylch cyfrin
yn ei barlwr ar y pafin
wrth i'r cyfarwydd digartref hwn
rannu briwsion hanes ei fywyd.

Pob drws ar gau,
pob ffenestr wedi ei bordio,
a neb yn becsu nac yn gwyllo
heblaw llygaid y CCTV.

Amser codi pac,
ymsythu, symud ymlaen,
ac wrth ffarwelio,
cymrwn ymaith fwy na'n bagiau siopa
a'n copi o'r *Big Issue*.
Cadwn rodd o'r rhannu,
sef gweld o hyn ymlaen,
er bod dwy ochr i bob stryd,
nad du a gwyn yw popeth yn y byd.

Gyda chaniatâd Grahame Davies